# Y Pwyllgor Busnes

**Cofnodion BC(3)29-09**

**Dyddiad:** Dydd Mawrth 10 Tachwedd 2009

**Amser:** 08.00

**Lleoliad:** Ystafell Gyfarfod 4ydd Llawr, yr Uned Gorfforaethol

**Aelodau'r Cynulliad yn bresennol**

Dafydd Elis-Thomas, Llywydd (Cadeirydd)

Carwyn Jones, Arweinydd y Tŷ

Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru

Alun Cairns, Rheolwr Busnes Ceidwadwyr Cymru

Peter Black, Rheolwr Busnes Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

**Swyddogion yn bresennol**

Adrian Crompton, Cyfarwyddwr Busnes y Cynulliad

Marion Stapleton, Swyddfa Arweinydd y Tŷ

Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Deddfwriaeth

Sulafa Halstead, Pennaeth Pwyllgorau'r Cynulliad

Anna Daniel, Clerc y Pwyllgor Busnes

Marc Wyn Jones, Gwasanaeth y Siambr

**1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau**

**2. Cofnodion y cyfarfod blaenorol**

**(i) BC(3)28-08 (cofnodion drafft) - Dydd Mawrth 3 Tachwedd 2009**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar eu ffurf ddrafft. Gan nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyfieithu'n barod i'w cyhoeddi.

**Camau i'w cymryd: Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Busnes**

**3. Busnes i ddod**

**Busnes yr wythnos hon - BC(3)29-09(p1)**

3.1 Dywedodd Arweinydd y Tŷ y byddai'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol yn gwneud datganiad am Fwrdd Adfer Ynys Môn ddydd Mercher.

3.2 Nododd y Pwyllgor fod dadl fer Chris Frank ynghylch 'Cyllid i chi, eich cymuned ac i Gymru' y trefnwyd i'w chynnal ddydd Mercher ar ôl ei gohirio ers 8 Gorffennaf, wedi'i thynnu'n ôl.

3.3 Cytunodd y Pwyllgor na ddylai'r Cyfnod Pleidleisio ddigwydd cyn 5 pm ddydd Mawrth na dydd Mercher. Nododd y Pwyllgor y byddai pob pleidlais mewn perthynas â'r Mesur Plant a Theuluoedd yn cael ei chynnal yn ystod y ddadl ddydd Mawrth.

3.4 Nododd y Pwyllgor drefn busnes ar gyfer 10 a 11 Tachwedd 2009.

**Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)29-09(p2)**

3.4 Nododd y Pwyllgor amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf .

**Amserlen busnes y Cynulliad a busnes heblaw busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf - BC(3)29-09(p3)**

3.5 Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 2 Rhagfyr 2009 -**

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Lles a Llywodraeth Leol ar y Gwasanaethau Iechyd Meddwl (60 munud)

Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Menter a Dysgu ar ei ymchwiliad i Gyfraniad Economaidd Addysg Uwch yng Nghymru (60 munud)

Dadl fer a ohiriwyd ar15 Gorffennaf 2009: NDM4272 Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru): Rhagdybiaeth yn Erbyn Cloddio Glo Brig yng Nghymru? (30munud)

3.7 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn Busnes y Cynulliad.

3.8 Cytunodd y Pwyllgor ar drefn busnes heblaw busnes y Llywodraeth.

**4. Deddfwriaeth**

**Llythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5: Craffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft. - BC(3)29-09(p4)**

4.1 Trafododd y Pwyllgor busnes lythyr gan Gadeirydd Pwyllgor Deddfwriaeth Rhif 5 ynghylch y broses o graffu ar Orchmynion Cymhwysedd Deddfwriaethol drafft . Gofynnwyd i'r Pwyllgor Busnes ystyried cyfeirio'r Gorchmynion drafft yn ôl at bwyllgor ar gyfer y gwaith craffu terfynol cyn y ddadl ar y Gorchymyn drafft. Cytunodd y Llywydd i drafod y mater â'r Cwnsler Cyffredinol, fel rhan o adolygiad ehangach o'r trefniadau ar gyfer delio â deddfwriaeth yn y Cynulliad.

YSGRIFENYDDIAETH Y PWYLLGOR BUSNES